



# Ein Cynllun ar gyfer Aer Glân yng Nghymru

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r '**Cynllun Aer Glân i Gymru. Aer Iach, Cymru Iach**' Llywodraeth Cymru

Rhagfyr 2019



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Mae beth maen nhw'n feddwl yn y geiriau anodd ar dudalen .



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Lywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Cyfeiriad:** Tîm Polisi Ansawdd Aer, Adran yr Amgylchedd a Chymunedau  
Llywodraeth Cymru  
3ydd Llawr, Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

**E-bost:** [AirQualityPolicy@Gov.Wales](mailto:AirQualityPolicy@Gov.Wales)



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** drwy ddefnyddio **Photosymbols**.

|                                                                            |           |
|----------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....</b>                                 | <b>2</b>  |
| <b>Beth sydd yn y ddogfen yma.....</b>                                     | <b>4</b>  |
| <b>Am lygredd aer.....</b>                                                 | <b>5</b>  |
| <b>Pam bod aer glân yn bwysig.....</b>                                     | <b>7</b>  |
| <b>Beth mae'r cyhoedd yn gallu ei wneud?.....</b>                          | <b>9</b>  |
| <b>Ein cynllun mewn 4 rhan.....</b>                                        | <b>11</b> |
| Rhan 1: Gwella ansawdd aer er mwyn iechyd a llesiant pawb.....             | 11        |
| Rhan 2: Gwella ansawdd aer i gefnogi'r amgylchedd a<br>bywyd gwyllt .....  | 14        |
| Rhan 3: Gwella ansawdd aer i wneud Cymru yn lle gwell .....                | 16        |
| Rhan 4: Gwella ansawdd aer i wneud Cymru yn wlad well i<br>fyw ynddi ..... | 17        |
| <b>Geiriau anodd.....</b>                                                  | <b>18</b> |

# Beth sydd yn y ddogfen yma




Rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl yn feddwl am ein cynllun ar gyfer aer glân yng Nghymru. Mae'r ddogfen yma yn dweud beth rydyn ni eisiau ei wneud.



Mae dogfen arall gyda'r un yma. Mae cwestiynau ynnddi. Ffurflen Ymateb ydy honno.



Llanwch y Ffurflen Ymateb ar ôl i chi ddarllen y ddogfen yma. Neu rydych chi'n gallu ateb y cwestiynau ar-lein: [www.gov.wales/consultations](http://www.gov.wales/consultations)



Rydyn ni hefyd yn mynd i gael digwyddadau i ofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl. Mae gwybodaeth am y digwyddiadau yn y wefan uchod.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl erbyn **10 Mawrth 2020**.



# Am lygredd aer



Mae **llygredd aer** yn achosi llawer o broblemau iechyd. Mae hefyd yn gwneud drwg i'r **amgylchedd**.


Mae **llygredd aer** yn digwydd pan mae cemegolion yn cael eu gollwng i'r aer mewn ffordd sydd yn gallu gwneud drwg inni, neu i'r **amgylchedd**.

Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw arno ac ynddo. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

Mae sŵn hefyd yn fath o **lygredd aer**.

Mae **llygredd aer** yn cael ei achosi gan bethau fel

- Sut rydyn ni'n cynhesu ein cartrefi.
- Sut mae'r pethau rydyn ni'n eu prynu yn cael eu gwneud.
- Y trafnidiaeth rydyn ni'n ei ddefnyddio.



Rydyn ni wedi gwneud cynllun i wneud yr aer yn fwy glân.



Mae'r gwaith yma yn bwysig iawn i iechyd pawb ac i'r **amgylchedd** ac **economi**.



Mae'r **economi** yn meddwl faint o arian sydd gan y wlad.



Mae ein cynllun hefyd yn cefnogi cynlluniau a deddfau eraill sydd yn ceisio gwella bywyd yng Nghymru.



Dim ond os ydyn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd y bydd y cynllun yma yn gweithio.

# Pam bod aer glân yn bwysig



Mae'r aer yn fwy glân nawr nag ychydig flynyddoedd yn ôl.



Mae hyn oherwydd rheolau sydd wedi cael eu gwneud i helpu i stopio rhywfaint o **llygredd aer**.

Ond mae llawer o waith i'w wneud eto. Oherwydd rydyn ni'n gwybod bod:



- **Llygredd aer** yn gallu gwneud pobl yn sâl. Mae hyn y gallu bod yn bethau fel cur pen a theimlo'n sâl.



Ond os oes gan bobl broblemau difrifol gyda'u calon a'u hysgyfaint mae **llygredd aer** yn gallu eu gwneud yn fwy sâl.



- Mae **llygredd aer** yn gallu cael effaith mawr ar blant wrth iddyn nhw dyfu. Ac yn gallu achosi problemau i fabanod cyn iddyn nhw gael eu gen.



- Mae yna gostau hefyd fel pobl yn gorfod cymryd amser o'r gwaith a chostau i'r GIG.



- Mae rhai pobl yn byw mewn ardaloedd sydd gyda mwy o **lygredd aer** na lleoedd eraill.



Ac mae **llygredd aer** yn gallu achosi problemau iechyd gwaeth mewn ardaloedd lle mae pobl yn dlawd a gyda iechyd gwael yn barod.



Felly mae angen inni feddwl sut rydyn ni'n gallu amddiffyn pobl sydd mewn mwyaf o berygl pan rydyn ni'n gwneud ein rheolau.



# Beth mae'r cyhoedd yn gallu ei wneud?



Mae yna wefan o'r enw Ansawdd Aer Cymru: [www.airquality.gov.wales/cy](http://www.airquality.gov.wales/cy). Mae'n rhoi gwybodaeth am lefelau **llygredd aer**.



Mae pobl yn gallu edrych ar hwn a gweld beth ydy ansawdd yr aer lle maen nhw'n byw.



Rydyn ni'n mynd i wneud y wefan yn well gyda rhagor o wybodaeth. Ac fe fydd yn hawdd i'w deall.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda **Iechyd Cyhoeddus Cymru** i feddwl am sut i gael gwybodaeth mewn lleoedd fel meddygfeydd ac ysbytai.



Rydyn ni'n cefnogi digwyddiad o'r enw **Diwrnod Aer Glân**. Mae'n cael ei redeg gan elusen o'r enw **Global Action Plan** ac mae'n dysgu pobl am [lygredd aer](#).



Rydyn ni'n annog pobl i gymryd rhan yn y **Diwrnod Aer Glân**. Er enghraifft mae pobl yn gallu ymuno drwy ddewis cerdded, seiclo, sglefrio neu fynd ar sgwter yn lle defnyddio car.



Yn 2022 fe fydd newid yn y ffordd mae pynciau'n cael eu dysgu yn ysgolion Cymru.



Mae disgyblion yn mynd i ddysgu am [lygredd aer](#). Rydyn ni'n mynd i weithio gydag ysgolion i helpu gyda hyn.



Mae yna brosiectau hefyd sydd yn helpu pobl i ddysgu rhagor am wyddoniaeth ac ymchwil. **Gwyddoniaeth Dinasyddion** ydy ei enw.

# Ein Cynllun mewn 4 Rhan

## Rhan 1: Gwella ansawdd aer er mwyn iechyd a llesiant pawb



Mae gan bawb eu rhan i'w chwarae mewn gwneud aer Cymru yn fwy glân.



Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl yn deall beth sydd yn achosi **lygredd aer** a sut mae'n gallu effeithio ar iechyd.



Mae angen inni hefyd roi gwybodaeth i bobl am beth maen nhw'n gallu ei wneud i leihau **lygredd aer**.

Rydyn ni eisiau:



- Parhau i ddysgu rhagor am **lygredd aer** a sut mae'n effeithio ar ein hiechyd. Fe fyddwn ni'n gweithio gyda gwahanol grwpiau o bobl i wneud hyn.



- Fe fyddwn ni'n helpu'r cyhoedd i ddysgu rhagor am **lygredd aer** a beth maen nhw'n gallu ei wneud i'w stopio.



- Gwneud gwiriadau **llygredd aer** ar draws Cymru mewn lleoedd fel ysgolion ac ysbytai.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod Awdurdodau Lleol yn edrych ar y gwaith maen nhw'n ei wneud bob tair blynedd i wneud yr aer yn fwy glân.



- Fe fyddwn ni'n gwneud deddf newydd o'r enw **Deddf Aer Glân i Gymru**. Fe fydd yna reolau am:



- Lleihau **llygredd aer** o'r ffordd mae pobl yn cynhesu eu cartrefi.



- Gwerthu tanwydd mwy glân.



- Lleihau **llygredd aer** o draffig ffordd.



- Sut mae cyrff fel GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn gallu lleihau **llygredd aer**.



- Mae **Corff Iechyd y Byd** wedi gosod canllawiau ar faint o lygredd ddylai fod yn yr aer.



- Rydyn ni eisiau i lygredd yng Nghymru fod o dan y canllawiau yma lle mae'n bosibl.



- Ac rydyn ni eisiau lleihau faint o **lygredd aer** mae pobl yn ei brofi yn fwy cyffredinol.



- Fe fyddwn ni'n gwneud cynllun erbyn Mawrth 2020 o'r enw **Fframwaith Parth Aer Glân**. Fe fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd lle mae angen inni leihau **llygredd aer** fwyaf cyflym.



## Rhan 2: Gwella ansawdd aer i gefnogi'r amgylchedd a bywyd gwyllt

Rydyn ni eisiau:




- Gwneud yn siŵr bod digon o blanhigion a bywyd gwyllt. A bod yna fwy o goedlannau i gefnogi'r bywyd yma.



- Gweithio gyda **Chyfoeth Naturiol Cymru** i helpu'r cyhoedd i wneud rhywbeth am lygredd.



- Gweld os ydyn ni'n gallu ffermio mewn ffordd sydd yn well i'r **amgylchedd**.



- Lleihau llygredd o sŵn. Mae hyn yn dod o bethau fel ffyrdd a threnau.



- Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i ddatblgu cynllun erbyn Hydref 2020 o'r enw **Cynllun Twf Amgylcheddol**.

Mae'n mynd i ganolbwyntio ar 3 peth:



**STOPIO** – colli natur.



**TYFU** – natur. Er enghraifft, mwy o goedwigoedd.



**NEWID** – helpu pobl i feddwl mwy am wneud y peth cywir i'r **amgylchedd**.

## Rhan 3: Gwella ansawdd aer i wneud Cymru yn lle gwell

Rydyn ni eisiau:



- Gweithio gyda'r bobl sydd yn gwneud pethau mewn ffatrioedd. A'u helpu nhw i ddarganfod ffyrdd o wneud pethau sydd yn achosi llai o lygredd.



- Canolbwyntio ar leoedd a ffatrioedd lle mae'r rhan fwyaf o **lygredd aer** yn cael ei wneud.



- Parhau i ddilyn y rheolau sydd yn stopio ffatrioedd rhag achosi llygredd. Hyd yn oed ar ôl inni adael yr **Undeb Ewropeaidd**.

Yr **Undeb Ewropeaidd** ydy grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.

## Rhan 4: Gwella ansawdd aer i wneud Cymru yn wlad well i fyw ynddi

Rydyn ni eisiau:



- Lleihau **llygredd aer** o drafnidiaeth. Yn enwedig mewn lleoedd cyhoeddus. A gwneud yn siŵr bod y cynlluniau newydd am drafnidiaeth Cymru yn cefnogi hyn.



Rydyn ni'n gallu gwneud hyn drwy helpu pobl i ddefnyddio llai ar eu ceir eu hunain. A thrwy gael gwell trafnidiaeth cyhoeddus.



- Helpu pobl i feddwl am ffyrdd mwy glân ac actif o deithio. Fel cerdded neu seiclo. Mae hyn yn dda i iechyd pobl ac i'r aer.



Oherwydd hyn, rydyn ni'n rhoi arian i Awdurdodau Lleol i wneud rhagor o lwybrau cerdded a seiclo.



Llywodraeth  
Welsh Government



- Gweithio ar y **Fframwaith Parth Aer Glân** i wella trafnidiaeth.



Mae hyn yn gallu cynnwys codi tâl ar bobl i yrru mewn rhai lleoedd. Ac mae'n gallu meddwl stopio trafnidiaeth sydd yn achosi'r llygredd mwyaf.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw arno ac ynddo. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar ôl ein hamgylchedd i bobl a natur yng Nghymru.

## Corff Iechyd y Byd

Mae Corff Iechyd y Byd yn gweithio am iechyd gwell ac mwy iach i bobl dros y byd.

## Economi

Mae'r economi ym meddwl faint o arian sydd gan y wlad.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru.

## Llygredd aer

Mae llygredd aer yn digwydd pan mae cemegolion yn cael eu gollwng i'r aer mewn ffordd sydd yn gallu gwneud drwg inni, neu'r amgylchedd.

## Undeb Ewropeaidd

Yr Undeb Ewropeaidd ydy grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.